

Gwir addoliad

*“Ysbryd yw Duw, a rhaid i’w addolwyr ef addoli mewn ysbryd a gwirionedd.”
(adn. 24)*

Beth am ddarllen Ioan 4:1–26 ac yna myfyrio

Os nad yw Duw ar orsedd ein calon, yna mae’n amhosibl i ni ei addoli yn ôl ei ewyllys. Mae cyfarfyddiad yr Arglwydd â’r wraig wrth y ffynnon yn dystiolaeth gref o hyn. Mae cwestiwn y wraig mewn perthynas â chanolbwynt gwir addoliad yn codi oherwydd y trafod parhaus oedd rhwng yr Iddewon a’r Samariaid ynglŷn â’r lle y dylid addoli Duw. Credai’r Iddewon y dylid addoli Duw yn Jerwsalem. Credai’r Samariaid y dylid ei addoli ar Fynydd Gerizim. Trwy bwysleisio lleoliad penodol ei addoliad, roedd yr Iddewon a’r Samariaid yn dangos eu diffyg dealltwriaeth o wir natur addoliad. Dyma pam mae Iesu’n pwysleisio, nid lle y dylid addoli Duw, ond sut y dylid ei addoli.

Pan fo Duw yn cael ei gyfyngu i leoliad, yna mae’n haws byw gyda phechod. Mae gosod Duw mewn isadran yn ein bywyd yn ei atal rhag gwneud unrhyw ofynion ar weddill ein bywyd. Gallwn gadw’r dwyfol mewn un rhan, a gosod godineb (fel yn achos y wraig yma) mewn rhan arall. Mae Iesu yn chwalu’r syniad yma trwy gyhoeddi fod y rhai sydd yn addoli Duw yn gorfod ei addoli mewn ysbryd a gwirionedd. Mae gwir addoliad yn symud Duw o’i orsedd mewn teml ac yn ei roi ar orsedd y galon. Yno, mae ei fywyd, ei rym a’i sancteiddrwydd yn effeithio ar bob agwedd o’n natur a’n cymeriad.

Mae’r Dr Cynddylan Jones, un o bregethwyr enwocaf Cymru, yn nodi “fod caniatáu ymddygiad mesol annerbyniol yn gwneud Duw yn afreal... yn ei osod ymhell oddi wrthym. Yr ydym yn adnabod Duw i’r graddau ag yr ydym yn barod i ganiatáu ei ofynion yn ein bywyd ymarferol.” Beth mae Duw yn ei ofyn oddi wrthym cyn ei addoli? Sancteiddrwydd, sydd, yn ôl yr awdur at yr Hebraeid, yn elfen angenrheidiol cyn y medrwn addoli Duw. (Hebraeid 12:14).

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Salm 15:1–5; 24:1–10; Phil. 3:1–3; Math. 15:7–20

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pa gysylltiad sydd rhwng sancteiddrwydd ac addoliad?
2. Beth sy’n angenrheidiol yn y gwir addolwr?

Gweddi

O Dduw, cynorthwya fi i fod yn wir addolwr, un sydd yn dy addoli mewn ysbryd a gwirionedd. Cynorthwya fi i gefnu ar bob math o eilunaddoliaeth, gan dy addoli di yn unig. Yn enw Iesu Grist. Amen.